



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Safonau'r Gymraeg - Adroddiad Blynyddol 2024-2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Cymraeg
This document is also available in Welsh

www.npt.gov.uk/cymraeg

Os bydd angen yr wybodaeth hon arnoch chi mewn print mwy neu fformat arall,
cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar 07805 771506 neu e-bostiwch: polisi@npt.gov.uk

Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024-2025.

Mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn bod y cyngor yn 'llunio adroddiad blynyddol' ar sut y cydymffurfiwyd â'r safonau perthnasol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Hwn yw nawfed adroddiad blynyddol y cyngor.

Mae'r Safonau'n rhoi'r hawl i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith wrth ymdrin â sefydliadau penodol ac yn gofyn bod y sefydliadau hynny yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r sylw ar gyflwyno cynnig gweithredol o ran dewis iaith, h.y. darparu gwasanaethau yn Gymraeg heb i ddefnyddwyr gwasanaeth na chyflogeion orfod gofyn amdanynt.

Bu 2024-2025 yn flwyddyn brysur a chyffrous i'r cyngor o ran cymryd camau i gyflawni ein hymrwymiad i gydymffurfio â'r safonau, wrth baratoi i groesawu Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr ym Mai 2025.

Gydag ail flwyddyn ein Strategaeth ddiwygiedig i Hyrwyddo'r Gymraeg a thrydedd flwyddyn Cynllun

Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar waith, rydym yn dechrau gweld cynnydd.

Roedd yr adborth o'r ymarferiad monitro cydymffurfiaeth a gyflawnwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod dan sylw yn galonogol ac mae nifer o fesurau yn yr adroddiad hwn yn dangos patrwm graddol ond cadarnhaol.

Gwyddom fod cefnogi ac annog dysgwyr a siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'u sgiliau iaith yn eu gwaith yn elfen allweddol o'n taith at gydymffurfio. Ynghlwm wrth hynny, mae'r gwaith o sicrhau bod cyflogeion yn cwblhau'r cwrs e-ddysgu gorfodol ar y Gymraeg yn ardal CnPT wedi parhau ac o ganlyniad, roedd 2859 o staff wedi cwblhau'r cwrs erbyn 31 Mawrth 2025, sef cynnydd o 1,179 ers diwedd y flwyddyn flaenorol. Ar ben hynny, cyflwynwyd nifer o fentrau a chyfleoedd hyfforddi newydd i gyflogeion y cyngor yn ystod y flwyddyn.

Er bod glynu at y safonau yn heriol o hyd, mae'r cyngor yn dal i gredu'n angerddol ynddo. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda chydweithwyr a phartneriaid i adeiladu ar y camau a gymerwyd gennym hyd yn hyn.

Atebolrwydd

Y cyngor sy'n gyfrifol yn y pen draw am weithredu'r safonau, a'r Prif Weithredwr sy'n gyffredinol gyfrifol am sicrhau bod trefniadau yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth. Ar ben hynny, rydyn ni'n cydnabod bod gan bob aelod o staff ran i'w chwarae er mwyn gweithredu'r safonau'n llwyddiannus.

Mae ein trefniadau llywodraethu yn gofyn bod yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg yn cael ei fonitro gan y Cabinet, gan sicrhau felly bod cynnydd parhaus o ran perfformiad.

Y Tîm Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu yn y Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cynghori gwasanaethau'r cyngor ar sut i gydymffurfio â'r Safonau. Mae'r tîm hefyd yn goruchwyllo proses y cyngor ar gyfer delio â chwynion o ran y Gymraeg, gan sicrhau bod unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth honedig yn cael ei ddwyn i'n sylw yn ddi-oed.

Mae'r holl ddeunyddiau gwybodaeth a chymorth sy'n ymwneud â gweithredu safonau'r Gymraeg ar gael ar ein mewnrwyd, Cyswllt CnPT.

Cynyddir ymwybyddiaeth o ofynion y safonau trwy'r Tîm Arwain Uwch, y Tîm Arwain Corfforaethol, timau rheoli'r cyfarwyddiaethau, a chyfarfodydd tîm, yn ogystal â thrwy'r gwahanol sianeli cyfathrebu â chyflogeion sydd gan y cyngor, e.e. Viva Engage, Uchafbwyntiau Cyswllt CnPT (y prif storïau newyddion), y llythyrau newyddion i'r staff, 'In the Loop' a 'Sway'.

Mae Grŵp Swyddogion y Gymraeg yn cefnogi gweinyddu a gweithredu'r safonau, ac yn helpu i ddatrys yn gynnar unrhyw anawsterau a all godi, gan gefnogi'r staff i gyflwyno gwasanaethau yn unol â'r dyletswyddau a roddir ar y cyngor, yn ogystal â helpu i hyrwyddo'r iaith.

Cefndir

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn disgrifio sut mae ein cyngor wedi gweithredu Safonau'r Gymraeg, ac mae'n manylu ar feysydd penodol, megis nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a'r gofynion iaith ar gyfer swyddi gwag, fel sy'n ofynnol o dan Fesur y Gymraeg (2011) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Mae'r safonau a gymhwyswyd i'r cyngor o dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi'u cynnwys yn ein [hysbysiad cydymffurfio](#).

Cydymffurfio a Hyrwyddo

Yn dilyn proses recriwtio lwyddiannus, fe ddechreuodd ein Swyddog Polisi Corfforaethol (Cydraddoldeb a'r Gymraeg) yn ei swydd ym mis Hydref 2024.

Comisiynydd y Gymraeg: cydymffurfio â safonau'r Gymraeg



Ym mis Mawrth 2025, cyfarfu swyddogion â Swyddog Pennu Safonau a Chydymffurfiaeth Comisiynydd y Gymraeg i drafod canlyniad eu hymarferiad monitro cydymffurfiaeth.

Aseswyd detholiad o feysydd gweithgaredd, yn cynnwys: galwadau ffôn; hunaniaeth gorfforaethol; y wefan; cyhoeddusrwydd a hysbysebu; dogfennau; ffurflenni; swyddi.

Er bod yr adborth a dderbyniwyd yn gadarnhaol gan mwyaf, methwyd â chyrraedd y nod mewn rhai achosion, yn cynnwys:

- anghysondebau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn pedwar postiad ar y cyfryngau cymdeithasol
- o'r 15 tudalen gwe a adolygwyd, roedd cynnwys yn eisiau ar bedair ohonynt, e.e. testun, dolenni ac ati.
- gwelwyd hysbysebion swyddi ar y tudalennau Cymraeg oedd heb gynnwys datganiad i ddweud bod *'modd cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg, ac ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg'*


Mae'r materion hyn wedi derbyn sylw ers hynny.



Defnydd o'r Gymraeg yn Fewnol

Rydym yn cydnabod na fydd pawb yn teimlo'n ddigon hyderus i ddefnyddio'u sgiliau iaith yn y gwaith ac y gall fod elfen o dangofnodi sgiliau Cymraeg gan gyflogaion oherwydd hynny.

Ym mis Rhagfyr 2024, dechreuom gyhoeddi cyflwyniad y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol i gylchlythyr wythnosol y staff yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Bellach, mae erthyglau newyddion i'r staff ynghylch yr iaith Gymraeg a'i diwylliant hefyd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.



Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd cynnydd bach yn nifer y cydweithwyr yn ein cyfeirlyfr staff sy'n siarad Cymraeg.

Mae cynlluniau ar waith i gyflwyno matrices 5 pwynt ar gyfer hunanasesu sgiliau Cymraeg, gan obeithio y bydd hynny, ynghyd â'r cynnydd yng ngweledd y Gymraeg yn y cyfathrebu mewnol a ddisgrifir uchod, yn arwain at gynnydd pellach yn y niferoedd yn y cyfeirlyfr.



Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol

Mae'r cyngor yn datblygu Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn Fewnol.

Ym mis Chwefror 2025, roeddem yn falch o gael ein gwahodd i gymryd rhan mewn cynllun peilot gan Gomisiynydd y Gymraeg yn y maes gwaith yma.

Byddwn yn cyhoeddi'r polisi ym mlwyddyn ariannol 2025-2026.

Safonau Cyflwyno Gwasanaethau

Cyfarfodydd y Cyngor


Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn hybrid, gyda'r cyfranogwyr yn dewis bod yn bresennol yn Siambr y Cyngor neu fewngofnodi o bell.

Wrth i feddalwedd cyfieithu Cymraeg Microsoft Teams ddod yn weithredol, rydym yn cynnig cyfieithu Cymraeg ar y pryd i bawb sy'n cyfranogi yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn (p'un a yw hynny wyneb yn wyneb neu o bell), ac mae hynny wedi'i gyfuno'n llawn â Public-I, sef cyfarpar clyweledol hybrid a gwegastio'r Cyngor.

Gohebiaeth yn Gymraeg

Rydym yn parhau i estyn cynnig gweithredol i ohebu gyda defnyddwyr gwasanaethau yn Gymraeg, gyda botwm 'Gohebiaeth yn Gymraeg' ar y tudalennau 'Gwneud cais am' ar ein gwefan.

Gohebiaeth ar-lein - Mae fyCnPT, ein platfform cyfrif i breswylwyr a lansiwyd yn ystod y flwyddyn, yn gwbl ddwyieithog. Mae dewis iaith yn cael ei gofnodi wrth i bobl ymuno â'r platfform, a'i gymhwyso ar draws pob neges, gan gynnwys hysbysiadau am ddiwrnodau casglu biniau. Mae'r platfform yn cynnig profiad dwyieithog di-fwlch, gyda'r dylunydd cynnwys Cymraeg yn rhan annatod o'r tîm cynhyrchu er mwyn sicrhau bod pob nodwedd a chynnwys newydd yn bodloni anghenion defnyddwyr Cymraeg. Yn ogystal, datblygwyd ffurflenni dwyieithog ar gyfer "Dweud Am" a "Cysylltu â Ni", sy'n galluogi trigolion i wneud pethau drostynt eu hunain yn eu dewis iaith.



Erbyn 31 Mawrth 2025,
roedd 115 o bobl wedi
nodi eu bod am dderbyn
gohebiaeth gennym yn
Gymraeg.

Safonau Llunio Polisi

Mae gofynion y safonau llunio polisi wedi'u hymgorffori yn fframwaith Asesu Effaith Integredig (AEI) y Cyngor. Rhoddir y broses asesu effaith ar waith ar gyfer pob polisi/menter newydd a diwygiedig ac felly caiff cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â phaidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, eu hystyried bob tro. Mae canllawiau cynhwysfawr a ffurflenni cysylltiedig ar gael ar hyn o bryd i'r holl staff ar Cyswllt CnPT.

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ganfyddiadau llinell ymholiadau allweddol o ran sut mae sefydliadau'n ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Ym mis Tachwedd hefyd, bu swyddogion yn bresennol mewn sesiwn ynghylch y safonau llunio polisi, fel rhan o raglen y Comisiynydd i hyrwyddo cydymffurfiaeth.

Eglurodd y Comisiynydd nad amlygu methiannau oedd bwriad yr adroddiad, ond yn hytrach helpu sefydliadau i ddysgu oddi wrth ei gilydd, ac annog sefydliadau i fabwysiadu dulliau newydd. Cyflwynwyd 5 argymhelliad yn yr adroddiad. Yng ngoleuni'r argymhellion, mae swyddogion wedi adolygu'r trefniadau yng Nghastell-nedd Port Talbot er mwyn amlygu meysydd sydd eisoes yn bodloni'r argymhellion a chreu cynllun gweithredu i ymateb i'r camau gweithredu lle mae angen cryfhau trefniadau'r cyngor.

Ym mis Hydref 2024, cynhaliwyd hyfforddiant "Ymgynghori a'r Gymraeg" ar gyfer swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau ynghylch penderfyniadau polisi (gweler tudalen 9 - Hyfforddiant). Defnyddiwyd y gwersi a ddysgwyd yn sgîl yr hyfforddiant i lywio strategaeth a phecyn offer ymgynghori ac ymgysylltu newydd y disgwylir eu lansio yn ystod Haf 2025.






Safonau gweithredu

Yn ystod 2024-25 gwelwyd gostyngiad (-11) yn nifer y staff sy'n dweud bod ganddynt sgiliau Cymraeg o'i gymharu â 2023-24. Roedd y mwyafrif o'r rhain (-9) yn ddysgwyr Cymraeg, fodd bynnag, gwelwyd cynnydd bach (+1 a +2) yn nifer y staff sy'n disgrifio eu hunain fel siaradwyr ac ysgrifenwyr Cymraeg rhugl neu ysgrifenwyr rhugl.

Cewch ddadansoddiad o'r sgiliau Cymraeg fesul cyfarwyddiaeth/maes gwasanaeth ar dudalen 14, a chymhariaeth o'r sgiliau iaith ers 2022-2023 ar dudalen 13.



Cyfeirlyfr Siaradwyr Cymru

Yn ystod 2024/2025, nodwyd 130 aelod o staff yn ein cyfeirlyfr cyflogeion sy'n barod/abl i ddefnyddio'u sgiliau iaith fel rhan o'u gwaith.

Mae hyn yn gynnydd bach ers 2023-24 (125).

Mae canllawiau a deunyddiau cymorth eraill ar ddefnyddio safonau'r Gymraeg a chydymffurfio â nhw ar gael i'r holl staff ar dudalennau'r Gymraeg ar Cyswllt CnPT (y fewnwyd).

Hyfforddiant

Mae ein rhaglen hyfforddi gwbl gynhwysol yn cyfeirio cyflogeion at wahanol ddewisiadau ar gyfer hyfforddiant Cymraeg ac offer cymorth, gan gynnwys y canllaw 'Help i ddewis cwrs', ac apiau ffôn symudol, podlediadau, cerddoriaeth, rhaglenni teledu ac adnoddau i'w defnyddio gyda phlant a phobl ifanc.

Ym mis Rhagfyr 2024, lansiodd **Thinqi**, sef **System Rheoli Dysgu newydd y cyngor**. Siop un stop ar gyfer anghenion hyfforddi cyflogeion yw Thinqi, sy'n caniatáu iddynt gwblhau e-Ddysgu, archebu eu cyrsiau eu hunain a chael golwg ar eu cofnod hyfforddiant. Ar y platfform dwyieithog gall cyflogeion nodi eu dewis iaith neu newid rhwng y naill iaith a'r llall wrth ddefnyddio'r platfform. Mae hefyd yn cynnwys cyrsiau dysgu Cymraeg:

- Hyfforddiant gorfodol ynghylch ymwybyddiaeth iaith
- Ymwybyddiaeth iaith Gofal Cymdeithasol Cymru (a ddarperir gan Gonsortium Dysgu Cymru) – sef modiwl ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, o'r blynyddoedd cynnar i ofalu am yr henoed, sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau iaith Gymraeg a gweithio'n ddwyieithog. Mae hefyd yn cyfeirio pobl at adnoddau pellach sy'n cynnig cymorth.
- Hyfforddiant Safonau'r Gymraeg i Aelodau CLILC (a ddarperir gan Gonsortium Dysgu Cymru)

Fel y soniwyd yn gynharach, cynhaliwyd hyfforddiant “Ymgynghori a'r Gymraeg” ym mis Hydref 2024. Datblygwyd a chyflwynwyd yr hyfforddiant pwrpasol gan Ateb, sydd â phrofiad helaeth o gyfathrebu dwyieithog a chydymffurfiaeth mewn ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu ledled Cymru. Yn bresennol ar y cwrs, roedd swyddogion y cyngor sy'n ymwneud â datblygu dogfennau ymgynghori ar benderfyniadau polisi ym maes ad-drefnu addysg yn ardal CnPT, swyddogion sy'n ddeiliaid trwydded meddalwedd Snap Survey, a Swyddogion Polisi Corfforaethol, Perfformiad ac Ymgysylltu. Yr hyfforddiant oedd yr olaf o'r camau gorfodi oedd yn rhan o hysbysiad penderfynu'r Comisiynydd iaith ynghylch cwyn CS114 (bwriad i sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg yng Nghwm Tawe).

thinqi

Hyfforddiant

Ym mis Mawrth 2025, mewn partneriaeth â Menter iaith CnPT, ailgyflwynwyd sesiynau 'Hyder...ish' i gyflogeion Cyngor CnPT. Cynhaliwyd y bloc cyntaf o chwe sesiwn yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot lle'r oedd pedwar aelod o staff wedi ymrestru (mae cynlluniau ar gyfer dwy garfan bellach yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd a'r Ceiau, ond bwriedir ystyried ymarferoldeb troi'r sesiynau hyn yn rhai hybrid er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan). Mae cynlluniau ar waith hefyd i ailgyflwyno sesiynau 'Sgwrs' rheolaidd yn 2025-2026.

Hefyd **yn ystod y flwyddyn adolygwyd** a diweddarwyd y sesiynau hyfforddiant sefydlu corfforaethol ar gyfer cyflogeion newydd (i'w defnyddio o ddechrau blwyddyn ariannol 2025-26 ymlaen). Trefnwyd bod sleidiau'r hyfforddiant yn gwbl ddwyieithog. Yn ogystal, cryfhawyd y sylw i'r Gymraeg yn yr hyfforddiant. Yn wreiddiol, roedd hynny'n cynnwys dau sleid o wybodaeth sylfaenol am y Safonau a'u cwmpas, ynghyd â gwybodaeth am ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach i'r staff. Mae'r fersiwn newydd yn cynnwys 11 sleid ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, sy'n cwmpasu'r canlynol:

- crynodeb o hanes y Gymraeg (yn cynnwys y Welsh Not; Brad y Llyfrau Gleision; Cymraeg 2050)
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Safonau'r Gymraeg (beth, pam a sut)
- cymorth iaith Gymraeg i'r staff; a
- rhagor o wybodaeth a chanllawiau

Yn 2024-25 (1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025):

- roedd 10 dysgwr newydd wedi ymrestru ar wahanol gyrsiau Cymraeg.
- roedd 7 dysgwr wedi cwblhau modiwlau hyfforddiant.
- mae 3 dysgwr yn dal wedi ymrestru ac wedi cwblhau eu cyrsiau i raddau gwahanol.
- mae 2859 o staff wedi cwblhau'r cwrs e-ddysgu gorfodol am y Gymraeg yn CnPT (sef cynnydd o 1,179 ar hyd y flwyddyn ariannol)



Safonau Hyrwyddo

Mae ein Grŵp o Swyddogion y Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolaeth werthfawr o Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot, wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd, ac mae cefnogi gweithrediad y Strategaeth ddiwygiedig i Hyrwyddo'r Gymraeg yn un o'i swyddogaethau.

Roedd dechrau 2025 yn golygu bod ymweliad Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr â Pharc Gwledig Margam ym mis Mai 2025 yn agosáu, felly roedd y grŵp yn awyddus i wneud yn fawr o'r cyfleoedd estynedig i hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg.

Mae cynnydd Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg yn destun ei adroddiad blynyddol ei hun, ond roedd rhai o'r gweithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Ailgyflwyno erthyglau 'Geiriau Cymraeg yr wythnos' yn y cylchlythyrau wythnosol i'r cyflogeion. Lle bo modd, fe'u cysylltwyd â themâu cyfredol, e.e. geiriau yn ymwneud â rygbi i gyd-fynd â Phencampwriaeth y Chwe Gwlad, geiriau Santes Dwynwen, geiriau cysylltiedig â'r Nadolig, geiriau cysylltiedig â'r gyllideb, ac ati.
- Cefnogwyd ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg ym mis Tachwedd 2024 mewn cyfathrebu mewnol a thrwy chwyddo negeseuon ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.
- Ddydd Llun 3 Mawrth, cynhaliwyd digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi i gyflogeion yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd, Canolfan Ddinesig Port Talbot a'r Ceiau.
- Ail-lansiwyd sesiynau 'Hyder...ish' ym Mawrth 2025, o dan arweiniad Menter Iaith CnPT. Mae'r sesiynau anffurfiol, di-dâl hyn dros chwe wythnos wedi'u bwriadu ar gyfer cyflogeion sydd eisoes yn siarad Cymraeg ond sydd angen meithrin hyder.



Safonau Hyrwyddo (*parhad*)

Addysg Cyfrwng Cymraeg – Fideos am fanteision addysg ddwyieithog

Aeth ein Cyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ati i gynhyrchu cyfres o fideos 'Taith at Ddwy Iaith' i gefnogi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r gyfres yn canolbwyntio ar lwybrau cyfrwng Cymraeg o'r cyfnod cyn geni i addysg bellach ac yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Lluniwyd y fideos gan ddefnyddio'r cyllid oedd ar gael i dreialu ymyriadau mewn ymateb i ganlyniadau'r dirywiad ieithyddol a welwyd yng Nghyfrifiad 2021 yn hen gadarnleoedd diwydiannol y Cymoedd Gorllewinol.




Safonau Cadw Cofnodion

Cwynion

Yn unol â Safon 170, mae gofyn i'r cyngor gyhoeddi gwybodaeth am unrhyw gwynion a dderbyniwyd ynghylch ei gydymffurfiaeth â'r safonau. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion trwy Gomisiynydd y Gymraeg nac yn uniongyrchol trwy'r cyngor yn ystod 2024-2025..

Yn ystod y flwyddyn, roedd y cyngor wedi cwblhau'r argymhellion (neu'r camau gorfodi) a nodwyd yn yr [hysbysiad penderfynu](#) ar fater cwyn CS114 (ymgyngori ynghylch cau tair ysgol cyfrwng Saesneg i greu ysgol newydd ar gyfer tua 700 o blant ym Mhontardawe).



Mesurau

Swyddi Gwag – Sgiliau Iaith	2022 - 2023	2023 - 2024	2024 - 2025
Dymunol	150	123	68
Hanfodol	29	22	12
Dim angen sgiliau Cymraeg	712	716	466
Angen dysgu Cymraeg	5	4	0

Cwynion	2022 - 2023	2023 - 2024	2024 - 2025
Nifer y cwynion a dderbyniwyd trwy Gomisiynydd y Gymraeg	1	0	1
Nifer y cwynion lle barnodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd angen ymchwiliad	1	0	1
Nifer y cwynion lle penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd methiant i gydymffurfio â'r safonau	N/A	0	0

Sgiliau Iaith staff Cyngor CnPT	2022-2023	2023-2024	2024-2025
Siarad ac ysgrifennu'n weddol rugl	81	77	79
Siarad yn weddol rugl	74	74	69
Siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl	139	135	136
Siarad Cymraeg yn rhugl	53	44	44
Dysgu Cymraeg	367	346	337
CYFANSWM	714	676	665

Swyddi Gwag ar gyfer 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025		
Gofynion o ran sgiliau Cymraeg	Nifer y swyddi	% y swyddi
Hanfodol	12	2.2%
Dymunol	68	12.5%
Angen dysgu Cymraeg	0	0
Dim angen sgiliau Cymraeg	466	85.3%

Mesurau (*parhad*) -Sgiliau iaith gweithwyr Cyngor CnPT yn ôl cyfarwyddiaeth/gwasanaeth

Cyfarwyddiaeth/Gwasanaeth	Siarad ac Ysgrifennu'n Weddol Rugl	Siarad yn Weddol Rugl	Siarad ac Ysgrifennu'n Rhugl	Siarad yn Rhugl	Dysgu Cymraeg	Ychydig neu ddim gwybodaeth	Dewis peidio â dweud	Cyfanswm	Heb ei adrodd
Prif Swyddogion	0	0	1	0	0	5	0	6	0
Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes									
Cynhwysiant a Phartneriaethau Blynyddoedd Cynnar	6	3	9	2	31	102	5	158	37
Datblygu Addysg	5	2	9	3	11	36	2	68	17
Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant	2	1	6	1	15	108	0	133	16
Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid	12	6	29	8	43	392	25	515	210
Amgylchedd ac Adfywio									
Gwasanaethau Cymorth Busnes	0	1	0	0	1	6	0	8	1
Peirianeg a Thrafnidiaeth	3	2	4	1	9	90	3	112	41
Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd	3	3	1	1	23	57	3	91	24
Eiddo ac Adfywio	3	8	5	4	11	138	2	171	45
Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru	3	5	11	5	18	144	1	187	42
Gwasanaethau Gofal Stryd	5	8	11	5	31	299	8	367	111
Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai									
Gwasanaethau Oedolion	15	11	17	6	48	397	23	517	74
Gwasanaethau Busnes	0	2	3	2	6	74	2	89	23
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc	9	5	12	3	40	206	2	277	90
Tai a Chymunedau	1	3	4	1	14	81	7	111	14
Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol									
Gwasanaethau Digidol	3	1	1	0	7	68	1	81	26
Gwasanaethau Ariannol	2	4	3	0	10	116	0	135	24
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd	5	2	4	1	12	44	0	68	24
Pobl a Datblygu Sefydliadol	2	2	6	1	7	86	2	106	26
Cyfanswm	79	69	136	44	337	2449	86	3200	845

Mesurau (parhad)

Galwadau ffôn	2022-2023	2023-2024	2024-2025
Nifer y staff â sgiliau iaith rhugl/gweddol rugl a nodwyd yn y cyfeirlyfr cyflogeion	125	125	130
Amser ar gyfartaledd i ateb galwadau ffôn - Saesneg	65 eiliad	48 eiliad	55 eiliad
Amser ar gyfartaledd i ateb galwadau ffôn – Cymraeg	81 eiliad	71 eiliad	53 eiliad

O ran galwadau Cymraeg, mae ein hamserau aros ar gyfartaledd wedi parhau i ostwng yn gyson ers 2022-2023.

Yn ein canolfan alwadau, rydym wedi cadw carfan lawn o gyflogeion sy'n siarad Cymraeg (gan sicrhau pan oedd siaradwyr Cymraeg yn gadael, bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyflogi yn eu lle).

Yn ystod y flwyddyn, newidiwyd neges y cyhoeddiad ymateb rhyngweithiol (IVR) i alwadau sy'n dod i mewn trwy dechnoleg ein system ffôn awtomatig er mwyn sicrhau mai dim ond pobl sydd am sgwrsio yn Gymraeg sy'n cysylltu â'r llinell ffôn Gymraeg.

Cyfryngau Cymdeithasol	2022-2023	2023-2024	2024-2025
X (dilynwyr)			
Cyfrif corfforaethol Saesneg	17,107	17,131	16,712
Cyfrif corfforaethol Cymraeg	476	520	503
Facebook (dilynwyr)			
Cyfrif corfforaethol Saesneg	21,273	22,596	25,273
Cyfrif corfforaethol Cymraeg	236	313	366

Cyfieithiadau

**Cyfanswm
cost
cyfieithiadau**
(lle gellir nodi
hynny)

2022-2023:
£46,701

2023-2024:
£89,735

2024-2025:
£66,663

Mesurau (parhad)

E-gylchlythyron Newyddion CnPT Nifer y tanysgrifwyr	2022-2023	2023-2024	2024-2025
E-gylchlythyr Cymraeg	20	95	34
E-gylchlythyr Saesneg	2,480	2,769	4,002
E-gylchlythyr dwyieithog	63	N/A	98

Gwefan	2022-2023	2023-2024	2024-2025
Cyfanswm nifer y trawiadau ar y wefan	5,188,512	5,197,608	4,645,216
Cyfanswm nifer y trawiadau ar dudalennau Saesneg	5,162,837	5,179,020	4,622,932
Cyfanswm nifer y trawiadau ar dudalennau Cymraeg	25,675	18,588*	22,284

* Oherwydd newidiadau i ddadansoddeg Google yn 2023-2024, bu cyfnodau lle nad oedd modd gwahaniaethu rhwng trawiadau Cymraeg a Saesneg. Mae'r broblem honno bellach wedi'i datrys ar ein gwefan newydd, lle mae modd dadansoddi'n fwy hwylus.



Lleisio Barn

Rydyn ni'n croesawu ymholiadau neu adborth ar yr adroddiad hwn:

Trwy e-bost: polisi@npt.gov.uk

Trwy'r post:

Y Prif Weithredwr, Cyngor
Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port
Talbot, Y Ganolfan Ddinesig,
Port Talbot SA13 1PJ

Cyfryngau cymdeithasol:

- Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen [Facebook](#) y cyngor
- Dilynwch yr adroddiad yma ac ychwanegwch sylwadau ar ein tudalen [X](#)
- Dilynwch ni ar [Instagram](#)